# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2023**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HAF 2023**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 6 darn darllen ar y thema ‘Cysgu’ yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân.
Darllenwch **bob un** o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**

**33 o flynyddoedd yn y gwely**

**A1.** Sawl blwyddyn yn ystod ei fywyd mae unigolyn yn ei dreulio yn cysgu? [1]

26

**A2.** Nodwch **ddau** beth y gallwch chi eu gwneud os ydych chi’n cael trafferth cysgu. [2]

1 marc yr un am unrhyw ddau o’r canlynol:-

<u>Ymarferion</u> Anadlu
Darllen Llyfr
Mynd am Fath



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**

**Delfrydol i'r Diogyn**

**A3.** Pa **un** o'r ffeithiau yma sy'n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio o'i gartref ei hun.

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

**A4.** **Nid** yw'r awdur yn gwneud **un** o'r canlynol yn y darn darllen. Rhowch ✓ yn y blwch priodol i ddangos pa un: [1]

Mynegi barn

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**

**Colofn Modryb Mari**

**A5.** Esboniwch beth mae Modryb Mari yn ein cynghori i'w wneud er mwyn ceisio rhoi'r gorau i chwyrnu. [2]

1 marc yr un am unrhyw ddau o'r canlynol:

- sicrhau ein bod ni'n cysgu drwy orwedd ar ein hochr / peidio gorwedd ar ein cefn
- gwnïo pêl dennis i gefn ein dillad nos fel ei bod hi'n rhy anghyfforddus i ni orwedd ar ein cefn
- codi un ochr y gwely fel ei fod yn uwch na'r ochr arall er mwyn ein helpu i orwedd ar ein hochr

**A6.** Tanlinellwch y trosiad yn y paragraff canlynol. [1]

| |
|---|
| Pan fyddwn ni'n cysgu ar ein cefn, mae'r tafod a'r palat meddal ar dop y geg yn ymlacio ac yn gorffwys ar gefn y gwddf gan wneud sŵn wrth ddirgrynu. Mae ein gên yn ymlacio hefyd felly mae'r gwefusau yn agor <u>a'r geg yn troi'n ogof atseinio</u> gan chwyddo'r sain. Druan ag unrhyw un sy'n gorfod dioddef chwyrnu o'r fath! |

ogof/ogof atseinio

**A7.** Esboniwch y manteision i filwr wrth gysgu ar ei ochr yn hytrach nag ar ei gefn. [2]

Drwy gysgu ar ei ochr mae hynny'n ei rwystro rhag chwyrnu. Pe byddai'n chwyrnu byddai'n bosib iddo gael ei glywed gan y gelyn, rhoi gwybod ei leoliad iddyn nhw, cael ei ddal neu hyd yn oed ei ladd.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim ateb/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Ateb yn fras ffeithiau yn unig |
| **2 farc** | Ateb llawn sy'n esbonio manteision |



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**

**Adar y Nos**

**A8.** Beth yw ystyr 'tila' yn y paragraff cyntaf? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

Di-werth
Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

**A9.** Sut mae Melanie Hughes yn llwyddo i gyflwyno ei barn yn y darn darllen? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich sylwadau. [6]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim ateb/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Ateb byr iawn – ymgais i drafod arddull/technegau'r testun yn fras |
| **2 farc** | Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau'r testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad. |
| **3 marc** | Ymdrech dda i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi. |
| **4 marc** | Trafod arddull/technegau yn dda gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda a chyson. |
| **5 marc** | Trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda iawn. |
| **6 marc** | Trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n aeddfed. |

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Trosiad | Adar y nos<br>O grombil fy nghreadigrwydd<br>Llifo drwy fy mhen<br>Egin syniadau |
| Ansoddeiriau | Tila, unigryw, straeon chwedlonol, cysgu'n sownd/drwm |
| Cymhariaeth/Cyffelybiaeth | Fel gwesteion hwyr i barti |
| Idiom | Rydw i'n boddi ynddyn nhw, oriau mân y bore, rhwng cwsg ac effro, cysgu'n sownd, cant a mil, |
| Cwestiwn Rhethregol | Pam hynny tybed? |
| Cwestiwn | Pam mae llawer o bobl greadigol mor gynhyrchiol yn ystod oriau'r nos? |
| Brawddegau Byrion | Ein hamser ni yw oriau'r tywyllwch. |
| Rhagenwau person 1af | Ein/ni |
| Person 1af unigol / Profiad personol | Rydw i .. fy .. |
| Ansoddair cymharol | Yn dawelach |
| Cyfarch y darllenydd | Os nad ydych ... dylech ... |
| Personoli | Creadur swil yw creadigrwydd |
| Berf | Dylech |
| Enwi / enghreifftio | Vincent van Gogh, Paul McCartney, Charles Dickens, Tennessee Williams |
| Rhifau | 50, cant a mil |

neu unrhyw dechnegau cywir eraill.



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**

**‘Insomniac ydw i ... dw i’n meddwl’**

**A10.** Pa **un** o’r datganiadau canlynol sy’n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

Mae dros 50% o bobl Prydain yn dioddef o broblemau cysgu.



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4 a 5**

**Adar y Nos**
**'Insomniac ydw i ... dw i'n meddwl'**

**A11.** Cymharwch brofiadau cysgu Melanie Hughes a Hywel Gwynfryn. [8]

| **Darn Darllen 4** | **Darn Darllen 5** |
|---|---|
| Mae Melanie Hughes yn cael trafferth cysgu ers mynd i'w gwely y noson honno. | Mae Hywel Gwynfryn yn credu ei fod yn insomniac gan ei fod yn dioddef o anawsterau cysgu cyson. |
| Dim ond am un profiad/noson o ddiffyg cwsg mae Melanie yn sôn. | Mae Hywel yn dioddef o ddiffyg cwsg bob nos ers blynyddoedd – cyflwr cronig. |
| Mae Melanie wedi codi o'i gwely gan fod cymaint o syniadau wedi dod i'w phen wrth geisio cysgu ac wedi mynd yn ôl at y cyfrifiadur. | Trefn nosweithiol Hywel yw codi o'i wely ar ôl troi a throsi a phoeni ac yna mynd i lawr y grisiau i wneud paned / darllen gan ei fod yn methu cysgu. |
| Creadigrwydd sy'n cadw Melanie ar ddi-hun. | Poeni am diwmor ar ymennydd ei fab 4 oed oedd achos diffyg cwsg Hywel yn y gorffennol. Mae hefyd yn poeni na fydd yn deffro yn y bore os y bydd yn cysgu yn y nos. |
| Mae Insomnia yn cael ei ystyried fel rhywbeth positif gan Melanie – wedi arwain at gampweithiau celf, cerddorol a llenyddol. | Mae Insomnia Hywel wedi arwain at ymosodiadau o banig dirybudd – profiad negyddol iawn. |
| Cyfeirio at y creu celfyddydol fel rhywbeth hudol yn ystod oriau'r nos – rhywbeth y dylai pawb roi cynnig arno. | Mynd i weld y meddyg er mwyn ceisio cyngor i ddelio gyda'r cyflwr – cael ei annog i ddechrau rhedeg. |
| Oriau tawel y nos yn rhoi awyrgylch dawel er mwyn gallu canolbwyntio'n well. | Meddygon yn cynghori i beidio â defnyddio technoleg cyn mynd i'r gwely er mwyn ymlacio. |
| Cael ysbrydoliaeth yn ystod oriau'r nos. | Panig a phryder yn ei lethu yn ystod y nos. |
| Gwerthfawrogi methu cysgu. | Diffyg cwsg yn boendod. |

Neu unrhyw bwynt dilys arall.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Ateb syml sy'n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith (1-2 ffaith) o'r darnau darllen. |
| **2 farc** | Dechrau cymharu'n fwriadol y ddau brofiad (3 ffaith neu fwy o'r ddau ddarn) ond heb ymgais i ddehongli. |
| **3 marc** | Cymharu'n fwriadol y ddau brofiad gydag ymgais arwynebol i ddechrau dehongli'r profiadau hynny. |
| **4 marc** | Gwybodaeth gymharol gyson am y ddau brofiad a dehongli'n eithaf da. |
| **5 marc** | Ateb manwl sy'n cymharu'n hyderus ac yn dehongli'n dda. |
| **6 marc** | Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl, ac weithiau'n heriol, am y ddau brofiad gan gymharu'n effeithiol; dehongli yn dda iawn. |
| **7 marc** | Dethol gwybodaeth berthnasol, yn aml yn heriol, yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol. |
| **8 marc** | Tynnu casgliadau aeddfed wrth ddehongli'r ddau brofiad gan ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen yn gyson. |


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 6**

**Ystyr Breuddwydion**

**A12.** Pa air yn y paragraff canlynol sy'n golygu 'wedi gwylltio'? [1]

| |
|---|
| Yna fe freuddwydiodd mai sêr oedden nhw i gyd, ac yn yr un modd, roedd y sêr eraill yn penlinio a'i addoli fel petai'n frenin. Roedd ei frodyr yn gandryll wrth feddwl bod Joseff yn credu ei fod yn well na'r gweddill ohonynt. |

gandryll / yn gandryll

**A13.** Mae pedwar o'r datganiadau isod yn gywir wrth drafod breuddwydion a'u hystyr. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** datganiad cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Daeth Macsen Wledig o Rufain i Gymru i chwilio am ferch ei freuddwydion. | ✓ |
| Sigmund Freud a Carl Jung oedd y bobl gyntaf i geisio dehongli ystyr ac arwyddocâd breuddwydion. | |
| Roedd Joseff a'i frodyr yn frenhinoedd. | |
| Mae breuddwydion cyson am ddianc rhag rhywbeth yn debygol o ddod i ben os gwnewch chi wynebu eich ofnau mewn bywyd. | ✓ |
| Breuddwydiodd Joseff am ddeuddeg ysgub a deuddeg seren. | ✓ |
| Mae breuddwydio am golli dannedd yn awgrymu eich bod yn poeni am eich ymddangosiad. | |
| Mae symboliaeth ein breuddwydion yn datgelu llawer amdanom ni ein hunain a'n bywydau. | ✓ |
| Roedd Elen yn un o ddeg o ferched a ymddangosodd ym mreuddwyd Macsen Wledig. | |

Ticio 4 blwch – tynnu un marc o'r cyfanswm
Ticio 5 blwch neu fwy – 0 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.